# Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol

# Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2018

# 12.00 canol dydd tan 1.30pm, Ystafelloedd Seminar 1 a 2, Adeilad Pierhead

**Yn bresennol:** gweler y rhestr atodol

**Croeso a chyflwyniadau:** Croesawodd Lee Waters AC (Cadeirydd) bobl i'r cyfarfod, yna gofynnwyd i'r aelodau a oedd yn bresennol gyflwyno eu hunain i'r cyfarfod.

**Sut mae Trafnidiaeth Cymru yn ymdrin â Teithio Llesol**

Croesawodd y Cadeirydd y siaradwr gwadd, James Price, Prif Swyddog Gweithredol Trafnidiaeth Cymru. Rhoddodd James Price gyflwyniad byr am rôl Trafnidiaeth Cymru, gan bwysleisio'r ymrwymiad i alluogi teithio llesol, ymrwymiad Cymru gyfan nad yw wedi'i gyfyngu i weithredu'r rheilffyrdd. Cyflwynodd Matthew Gilbert a benodwyd yn ddiweddar fel Arweinydd Teithio Llesol Trafnidiaeth Cymru. Yn y drafodaeth ddilynol codwyd y materion canlynol: angen monitro'n effeithiol safonau seilwaith newydd a sut mae'n cydymffurfio a'r Canllawiau Dylunio. A yw hyn yn rôl i Trafnidiaeth Cymru? A yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud rôl Trafnidiaeth Cymru o ran teithio llesol yn glir? Mae'n hanfodol bod teithio llesol wedi'i integreiddio i bob agwedd o'r system drafnidiaeth ac yn cael blaenoriaeth uchel. Mynegwyd pryder ynghylch nifer y beiciau bydd y cerbydau trên newydd yn gallu eu cario, gan arwain at drafodaeth ynghylch y graddau y gallai cynlluniau fel Nextbike gymryd lle beiciau personol pobl. Croesawyd penodiad Mathew Gilbert ond roedd pryder ynghylch a allai un person ymdopi ag uchelgais teithio llesol Trafnidiaeth Cymru. A fyddai digon o adnoddau? Parcio mewn gorsafoedd rheilffordd: a fydd darparu llefydd parcio beiciau diogel a digonol yn cael blaenoriaeth dros ehangu parcio ceir? A fydd Trafnidiaeth Cymru yn gwneud defnydd llawn o ddata i gynllunio darpariaeth teithio llesol, efallai trwy ddatblygu ap i ffonau symudol fel Transport for London? Pwysleisiodd nifer o aelodau bwysigrwydd cyfyngiadau cyflymder o 20mya fel ffordd o annog teithio llesol, a fydd hynny'n bolisi gan Trafnidiaeth Cymru? Nododd aelodau y byddai terfyn cyflymder 20mya mewn ardaloedd trefol yn llawer rhatach i'w weithredu na'i wneud fesul ward.

Yn ei ymatebion, gwnaeth James Price, ynghyd â Geoff Ogden, y pwyntiau canlynol: pwysigrwydd edrych ar brofiad gwirioneddol pobl sy'n ceisio cerdded a beicio, nid dim ond ffigyrau ar hyd y seilwaith. Fel gyda rheilffyrdd, dylem fod yn anelu at seilwaith teithio llesol o safon fyd-eang. Byddai gan Trafnidiaeth Cymru rôl yn y gwaith o ddwyn ynghyd yr ymarferwyr allweddol mewn teithio llesol i sicrhau gwell cydlyniad. Byddai'n croesawu galwadau i Lywodraeth Cymru roi rôl gliriach i Trafnidiaeth Cymru o ran galluogi teithio llesol. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gallent wella atebolrwydd y sefydliad yn uwch na'r hyn sy'n cael ei ddarparu gan y bwrdd, ac fe bwysleisiodd eu hymrwymiad i dryloywder. Byddai'n croesawu adolygu'r Ddeddf Teithio Llesol i gynnwys Trafnidiaeth Cymru ymhlith y cyrff sy'n cael eu rhwymo gan y Ddeddf. Mae cerbydau trên newydd wedi cael eu harchebu ond nid oes penderfyniad wedi'i wneud ar gyfluniad y cerbydau eto, ac fe fyddai'n croesawu lobïo ar ba gyfluniad ddylai fod. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn cwrdd â Nextbike cyn bo hir. Mae cyllideb gan Trafnidiaeth Cymru ar gyfer teithio llesol a gellir ei adolygu os nad yw'r adnoddau'n ddigonol. Nid oedd Trafnidiaeth Cymru eisiau datblygu ap newydd ond byddai'n defnyddio data i wella cynllunio trafnidiaeth. Cytunodd James Price i drafod y mater 20mya gyda Llywodraeth Cymru a gofynnodd am ragor o wybodaeth am y cynnig ar gyfer terfyn 20mya ger gorsafoedd rheilffordd.

**Diweddariad ar Bolisi Cynllunio Cymru**

Dywedodd Lindsey Brown o Weithgor Polisi Cynllunio Cymru wrth y cyfarfod fod y grŵp wedi cael cyfarfod â swyddogion cynllunio Llywodraeth Cymru. Roedd y swyddogion yn agored iawn i'r dadleuon a roddwyd o

blaid gofyniad mwy trylwyr ar gyfer seilwaith teithio llesol mewn datblygiadau.  Roedd cyfarfod arall i'w gynnal i drafod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.  Yn dilyn cyfarfod gyda Chadeirydd ac Ysgrifennydd y Grŵp, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig anfon llythyr at swyddogion cynllunio awdurdodau lleol yn pwysleisio pwysigrwydd y system gynllunio wrth ddarparu teithio llesol a nodi ei hymrwymiad i leihau dibyniaeth ar geir preifat.  Pwysleisiodd yr aelodau bwysigrwydd sicrhau bod y llythyr yn cael ei rannu mor eang â phosib.

**Llwybr dadgarboneiddio**

Dosbarthodd yr Ysgrifennydd gopi o'r cyflwyniad a wnaeth y Grŵp i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru "Cyflawni ein llwybr carbon isel i 2030".  Mynegodd bryder difrifol am y diffyg uchelgais yn y targedau teithio llesol yn nogfen Llywodraeth Cymru, sef ar gyfer beicio dim ond 10% o bobl yn beicio unwaith yr wythnos, o'i gymharu ag uchelgais yr Alban bod 10% o bob taith ar feic.  Nododd hefyd nad oedd y ddogfen yn cynnwys darpariaeth ar gyfer symudiad moddol tuag at drafnidiaeth gynaliadwy, ac nid oedd sôn am effaith Metro De Cymru.  Roedd pryder pellach am yr awgrym y dylid caniatáu i gerbydau trydan ddefnyddio lonydd bysiau.

**Cyllid Teithio Llesol**

Rhoddwyd adroddiad ar y cyhoeddiad diweddar i fuddsoddi £10 miliwn yn y Gronfa Teithio Llesol.  Er bod croeso i'r buddsoddiad, roedd pryder ynghylch y ffordd yr oedd y cyllid wedi'i flaenoriaethu, ac nid oedd yn ymddangos ei fod yn canolbwyntio ar gael y cynnydd mwyaf mewn teithio llesol, nac ar ddatblygu rhwydweithiau cyflawn.  Pwysleisiwyd pwysigrwydd rôl grwpiau ymgyrchu lleol o ran craffu ar fuddsoddi.

**Busnes Cyfarfod Blynyddol**

Ethol y Cadeirydd: Enwebwyd Lee Waters AC, eiliwyd ac etholwyd heb wrthwynebiad.
Ethol yr Ysgrifennydd: Enwebwyd Chris Roberts, eiliwyd ac etholwyd heb wrthwynebiad.

**Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Derbyniwyd y cofnodion.

**Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb yn gofyn i bobl anfon awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol i'r Grŵp a chau'r cyfarfod.**

**Yn bresennol:**

| **Enw cyntaf** | **Cyfenw** | **Sefydliad** |
|---|---|---|
| Rhun | ap Iorwerth | Aelod Cynulliad |
| John | Griffiths | Aelod Cynulliad |
| Julie | Morgan | Aelod Cynulliad |
| Jenny | Rathbone | Aelod Cynulliad |
| Lee | Waters | Aelod Cynulliad |
| Zoë | Bateman | (Yn cynrychioli Jenny Rathbone AC) |
| Nancy | Cavill | (Yn cynrychioli Julie Morgan AC) |
| Peter | Wong | (Yn cynrychioli Jenny Rathbone AC) |
| Anne | Adams King | Beicio Cymru |
| Ken | Barker | Ymgyrch Beicio Caerdydd |
| Andrew | Bold | Trafnidiaeth Cymru |
| Steve | Brooks | Sustrans Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| Rebecca | Brough | Ramblers Cymru |
| Lindsey | Brown | Gweithgor Polisi Cynllunio Cymru |
| Richard | Brunstrom | Cycling UK Gogledd Cymru |
| Shea | Buckland Jones | Sefydliad Materion Cymreig |
| Duncan | Dollimore | Cycling UK |
| Owain | Griffiths | Seiclo RhCT |
| Nick | Guy | Wheelwrights |
| Rhiannon | Hardiman | Living Streets |
| Meryl | James | Julie Morgan AC |
| Ellen | Jones | Sustrans Cymru |
| Richard | Keatinge | Beicio Bangor |
| David | McCullough | Ramblers Cymru |
| Hugh | McKay | Cycling UK Bro Morgannwg |
| Olivia | McKeone | Sustrans Cymru |
| Craig | Mitchell | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) |
| David | Naylor | Wheelwrights |
| Geoff | Ogden | Trafnidiaeth Cymru |
| Gwenda | Owen | Cardiff Cycle City |
| James | Price | Trafnidiaeth Cymru |
| Matt | Price | Gweithgor Polisi Cynllunio Cymru |
| Chris | Roberts | Ysgrifennydd y Grŵp |
| Phil | Snaith | Fforwm Seiclo Sir Gâr |
| Tom | Wells | Cycling UK Aberteifi |
| Caro | Wild | Cyngor Caerdydd |